



Ysgol Tryfan

Gorffennaf 14, 2014

Diwedd Tymor yr Haf 2014 yn Ysgol Tryfan

Annwyl Riant / Warcheidwad

Ar ddiwedd blwyddyn ysgol arall brysur hoffwn ddyuno'n dda i'n disgyblion a'u teuluoedd dros wyliau'r haf. Hoffwn hefyd ddiolch o galon i chi am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth yn ystod y flwyddyn a aeth heibio.

Heddiw bydd disgyblion blynyddoedd 7 - 9 yn derbyn adroddiad llawn ar eu cyrhaeddiad yn ystod y flwyddyn ac mae disgyblion blwyddyn 9 wedi derbyn eu Lefelau Cwricwlwm Cenedlaethol ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3. Eleni hefyd am yr ail flwyddyn bydd disgyblion blynyddoedd 7 - 9 yn cael adroddiad dwyieithog yn adrodd ar eu perfformiad yn y Profion Cenedlaethol Darllen (Cymraeg a Saesneg) a Rhif. Gan fod disgyblion blwyddyn 10 eisoes wedi derbyn adroddiad llawn y tymor diwethaf byddant yn awr yn derbyn adroddiad cryno gyda graddau cyrhaeddiad a'u targedau. Hyderaf y bydd pob disgybl yn elwa o'r adroddiadau am yr hyn a gyflawnwyd eleni - ac eto'n gallu gosod targedau clir ar gyfer cynnydd pellach y flwyddyn nesaf.

Hoffwn eich hysbysu fel rhieni na fyddwn yn Ysgol Tryfan yn agor ein drysau i ddisgyblion eleni tan **ddydd Mercher y 3ydd o Fedi 2014**. Mae hyn yn wahanol i nifer o ysgolion cynradd y dalgylch ac ymddiheuraf os yw hyn yn peri anhawster i rai rhieni. Ond fel ysgol rydym wedi penderfynu defnyddio dau ddiwrnod o Hyfforddiant Mewn Swydd ar ddechrau'r tymor. Rhennir y Calendr Ysgol yn llawn â chi ym mis Medi. Bydd y Calendr Ysgol hefyd wedi cael ei ddiweddarau'n fuan ar wefan yr ysgol. Manteisiaf ar y cyfle hwn i'ch annog i fynd at ein gwefan - www.ysgoltryfan.org - er mwyn cael blas o fywyd yr ysgol. Ceir yma hefyd lawer o wybodaeth ddefnyddiol i chi yn yr adran Rhieni a bydd yr adran Newyddion a'r Albwm Lluniau yn arbennig o ddiddorol i bawb sy'n ymddiddori yn yr ysgol.

Hoffwn eich hysbysu hefyd fel rhieni y bydd pris cinio ysgol yn codi ychydig ym mis Medi gyda'r cinio llawn yn costio £2.20, prydau pasta yn costio £1.70 a'r tatws trwy'u crwyn/baguettes/paninis yn costio £1.30. Byddwn yn gosod rhestr fanwl ddiwygiedig o brisiau newydd y ffreutur ar gyfer Medi 2014 ar y dudalen Rhieni > Llythyrau i Rieni ar wefan yr ysgol.

Ar gychwyn gwyliau haf fel hyn hefyd hoffwn erfyn arnoch fel rhieni i gydweithredu â ni fel ysgol a sicrhau fod eich plentyn yn dychwelyd atom ym mis Medi mewn gwisg ysgol gywir a chyflawn a heb unrhyw dlysau amhriodol ac eithrio'r un 'stydd' a ganiateir ym mhob clust.

Cyn cloi hoffwn gadarnhau y bydd canlyniadau arholiadau Uwch Gyfrannol a Safon Uwch yn cael eu cyhoeddi ar fore lau Awst 14 o 8.00 y bore ymlaen. Bydd canlyniadau TGAU ar gael i flwyddyn 11 wythnos yn ddiweddarach ar ddydd lau Awst 21 am 8.00 unwaith eto. Mae nifer o ddisgyblion blwyddyn 10 hefyd erbyn hyn yn disgwyl canlyniadau TGAU ac oherwydd hynny rydym yn gwahodd disgyblion 10 hefyd i ddod i'r ysgol i gael eu canlyniadau pe dymument. Bydd y canlyniadau ar gael i ddisgyblion blwyddyn 10 rhwng 10 o'r gloch y bore a 12.00 ar 21/07/14 er mwyn caniatáu i ni ddelio'n llawn gyda disgyblion blwyddyn 11 a'u hanghenion yn gyntaf. Bydd staff ar gael ar y dyddiau hyn i gynorthwyo ac i gynghori.

Felly hoffwn ddyuno haf hir, diogel a heulog i chi - ac edrychaf ymlaen yn arw i weld y disgyblion i gyd yn ôl gyda ni yn Ysgol Tryfan ar y 3ydd o Fedi.

Yn gywir

Gwyn Tudur
Pennaeth



Ysgol Tryfan
Lôn Powys, Bangor, Gwynedd. LL57 2TU
☎ 01248 352 633 ☎ 01248 361 264
swyddfa@tryfan.gwynedd.sch.uk www.ysgoltryfan.org

Pennaeth/Headteacher: Gwyn Tudur

